Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau (Ymadael â'r UE) Marchnata Hadau a Deunydd Lluosogi Planhigion (Diwygiad etc.) (2018)** |
| **DYDDIAD** | **20 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** |

**Rheoliadau (Ymadael â'r UE) Marchnata Hadau a Deunydd Lluosogi Planhigion (Diwygiad etc.) (2018)**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**
**<u>Domestig</u>**

- Mae Y Rheoliadau Hadau (Rhestr Genedlaethol o Amrywogaethau) 2001.

**<u>UE</u>**

- **Penderfyniad Comisiwn 80/512/EEC:** yn awdurdodi'r Deyrnas Unedig ac eraill i beidio a defnyddio'r amodau sy'n cael eu gosod yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 66/401/EEC ar farchnata hadau planhigion porthiant, o ran pwysau'r sampl ar gyfer penderfynu ar hadau Cuscuta.
- **Penderfyniad y Cyngor 2003/17/EC:** ar gyfwerthedd arolygon maes a gynhaliwyd mewn trydydd gwledydd ar gnydau cynhyrchu hadau ac ar gyfwerthedd hadau a gynhyrchwyd mewn trydydd gwledydd.
- **Penderfyniad y Cyngor 2005/834/EC**: ar gyfwerthedd y gwiriadau ar arferion ar gyfer cynnal amrywogaethau a gynhaliwyd mewn rhai trydydd gwledydd a diwygio Penderfyniad 2003/17/EC.
- **Rheoliad y Comisiwn 217/2006**: gosod rheolau ar gyfer defnyddio Cyfarwyddebau y Cyngor 66/401/EEC, 66/402/EEC, 2002/54/EC 2002/55/EC a 2002/57/EC o ran awdurdodi Aelod Wladwriaethau i ganiatáu marchnata hadau dros dro nad ydynt yn bodloni isafswm y gofynion egino.
- **Penderfyniad Gweithredu y Comisiwn 2012/340/EU:** ar drefnu arbrawf dros dro o dan Gyfarwyddebau y Cyngor 66/401/EEC, 66/402/EEC, 2002/54/EC, 2002/55/EC a 2002/57/EC o ran arolygon maes o dan oruchwyliaeth swyddogol ar gyfer hadau sylfaenol a hadau a fagwyd o genedlaethau cyn yr hedyn sylfaenol.
- **Penderfyniad Gweithredu y Comisiwn 2014/150/EU:** ar drefnu arbrawf dros dro yn darparu ar gyfer llacio rhai rheolau ar gyfer marchnata poblogaethau o rywogaethau'r

planhigion gwenith, barlys, ceirch ac indrawn yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 66/402/EEC.
- **Penderfyniad Gweithredu y Comisiwn 2017/547/EU:** ar drefnu arbrawf dros dro o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/56/EC o ran cloron sy'n dod o hedyn tatws.

**Dirymiadau**
**Rheoliadau**
1. Rheoliad y Comisiwn (EC) rhif 1597/2002 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/105/EC mewn cysylltiad â fformat y rhestrau cenedlaethol o ddeunydd sylfaenol deunydd atgenhedlu coedwigoedd.
2. Rheoliad y Comisiwn (EC) rhif 1598/2002 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/105/EC mewn cysylltiad â chyrff swyddogol sy'n darparu gyd-gymorth gweinyddol.
3. Rheoliad y Comisiwn (EC) rhif 1602/2002 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/105/EC mewn cysylltiad ag awdurdodi Aelod-wladwriaeth i wahardd marchnata deunydd atgenhedlu penodedig i'r defnyddiwr olaf

**Penderfyniadau**
1. Penderfyniad y Comisiwn 2007/321 i ryddhau'r Deyrnas Unedig rhag rhwymedigaethau penodol o ran marchnata hadau llysiau o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/55/EC
2. Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/478 i ryddhau rhai Aelod-wladwriaethau rhag y rhwymedigaeth i gymhwyso rhai rhywogaethau yng Nghyfarwyddebau'r Cyngor 66/401/EEC, 66/402/EEC, 68/193/EEC, 1999/105/EC, 2002/54/EC, 2002/55/EC a 2002/57/EC ar farchnata hadau porthiant, hadau ydau, deunydd ar gyfer lluosogi gwinwydd yn llysieuol, deunydd atgenhedlu coedwigoedd, hadau betys, hadau llysiau a hadau planhigion olew a ffibr yn y drefn honno.
3. Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/925 sy'n awdurdodi am gyfnod dros dro rai Aelod-Wladwriaethau i ardystio deunydd rhagsylfaenol rhai rhywogaethau o blanhigion ffrwythau a gynhyrchir mewn cae o dan amodau nad ydynt yn atal pryfed.

**Cytundeb yr EEA**
Yn Atodiad 1 Cytundeb yr EEA, ym Mhennod 3 (materion sicrhau iechyd planhigion) yn Adran 2 (testunau cymhwyso), diddymir paragraffau 16, 22, 36 a 39.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Ffiniau tiriogaethol yr offeryn hwn yw'r Deyrnas Unedig

Mae y gwahanol amrywogaethau o blanhigion a hadau yn faes sydd wedi'i ddatganoli, sy'n cael ei reoli ar hyn o bryd gan gyfraith yr UE. Mae hyn wedi arwain at fabwysiadu rheolau marchnata amrywogaethau o blanhigion a hadau cyffredin ledled y DU yn unol â meini prawf yr UE (CPVO) a Rhyngwladol (UPOV) tra'n galluogi gwahaniaethau (pan y caiff ei gyfiawnhau yn dechnegol). Mae y dull o fynd i'r afael â'r diwygiadau wrth Ymadael â'r UE o ran yr amrywogaethau o blanhigion a hadau yw ceisio creu fframwaith i gynnal y dull hwn cymaint â phosibl wedi ymadael.

Mae'r OS hwn yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru sy'n cael eu defnyddio ar y cyd. Caiff y darpariaethau hyn eu rhoi yng nghyd-destun offeryn statudol presennol ledled y DU pryd y mae Gweinidogion Cymru yn ymarfer y swyddogaethau ar y cyd ar hyn o bryd.

Mae darpariaeth yn yr OS hwn hefyd sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau o ran Cymru yn ddilyffethair ac i Weinidogion Cymru roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau o ran Cymru.

Byddai swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol â chydsyniad yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, fod hynny'n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

**Diben y diwygiadau**
Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio etc.) Mae Rheoliadau (Ymadael â'r UE) 2018, sy'n cael eu cyfeirio wedi hyn fel "y rheoliadau hyn", yn diwygio deddfwriaeth ynghylch marchnata hadau a deunydd lluosogi planhigion.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001 ac yn cadw cyfraith yr UE ar farchnata hadau. Mae’r diwygiadau’n mynd i’r afael â mesurau fydd yn sicrhau bod Rheoliadau 2001 a chyfraith yr UE a gedwir yn parhau’n weithredadwy ar ôl ymadael ac yn dirymu unrhyw gyfraith yr UE a gedwir a ddaw’n afreidiol. Mae’r diwygiadau’n ymwneud â darpariaethau sy’n amhriodol neu’n afreidiol ar ôl ymadael a’u diben yw sicrhau parhad y cyflenwad hadau.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud y diwygiadau i'r Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001 er mwyn ail-sefydlu cyfeiriad hanesyddol at y Rheoliad Bwydydd Newydd ac i ddiweddaru'r rhestr o rywogaethau wedi'u rhanddirymu sydd wedi dyddio.

Mae'r OS a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob diwygiad i’w gweld yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-marketing-of-seeds-and-plant-propagating-material-amendment-etc-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae’r diwygiadau wedi eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE. Mae hyn yn unol â’r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.